TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Diversity and Domestic Abuse

**Yn gryno**

Gellir diffinio Cam-drin Domestig a elwir yn "trais domestig" neu "trais gan bartner agos" hefyd, fel patrwm o ymddygiad mewn unrhyw berthynas a ddefnyddir i ennill neu gynnal pwer a rheolaeth dros bartner agos.

Gall cam-drin domestig fod ar sawl ffurf, ac mae'n ddigwyddiad cyffredin ledled Cymru. Bydd y cwrs yn rhoi cyflwyniad i'r ffurfiau gwahanol a mecanweithiau cymorth ar waith.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...gweithwyr proffesiynol mewn unrhyw ddiwydiant sy'n dod i gysylltiad â phlant, oedolion ifanc, a/neu eu teuluoedd.

...y rheiny sy'n chwilio am gwrs lefel gyflwyniadol.

...gweithwyr o bob lefel, yn cynnwys staff rhan-amser a gwirfoddolwyr

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r cwrs yn amlinellu'r effaith mae trais a cham-drin domestig yn cael ei chael ar ddioddefwyr a phlant, ac yn cynorthwyo dysgwyr i ddeall sut mae ymateb yn briodol i'w pryderon.

Diffinio beth yw cam-drin domestig
Theorïau cam-drin domestig
Cydnabod, ymatebion ac effaith trais

**Gofynion Mynediad**

Nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn. Bydd disgwyl i chi ymrwymo 6 awr ac ymgysylltu yn llawn â phob rhan o'r cwrs. Nid oes angen asesiad ffurfiol. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i gyfranogwyr gymryd rhan yn yr holl weithgareddau gyda brwdfrydedd, a dangos parch at eraill.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Os nad ydych wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant mewn diogelwch plant o'r blaen, yna argymhellir eich bod yn cwblhau cwrs 'Cyflwyniad i Ddiogelu Plant' law yn llaw â'r un yma.